



GRŴP COLEGAU  
**NPTC**  
GROUP OF COLLEGES

# Buddion Staff

## Cyflog Cystadleuol

### Cynllun Pensiwn

Mae'r Coleg yn cynnig dau gynllun pensiwn, Cronfa Bensiwn Llywodraeth Leol ar gyfer staff cymorth a'r Cynllun Pensiwn Athrawon ar gyfer staff academiaidd. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

[www.swanseapensionfund.org.uk](http://www.swanseapensionfund.org.uk)

neu [www.teacherspensions.co.uk](http://www.teacherspensions.co.uk)

### Gwyliau Blynyddol

Hawl i wyliau blynyddol hael; Mae staff cymorth yn derbyn 28 diwrnod o wyliau blynyddol, hyd at 5 diwrnod pryd y mae'r Coleg ar gau, yn ogystal ag 8 diwrnod statudol (yn ôl cyfran ar gyfer staff rhan-amser) ac ar ôl 5 mlynedd o weithio, mae staff yn derbyn 32 diwrnod.

### Datblygu Staff

Mae'r Coleg yn hyrwyddo diwylliant o ddatblygiad proffesiynol parhaus gan gynnig ystod eang o gyfleoedd datblygu ar gyfer pob aelod o staff.

### Academi Chwaraeon Llandarcy (LAS)

Mae gan bob aelod o staff hawl i fod yn aelod o LAS am bris gostyngedig sy'n cynnwys defnydd diderfyn o'r ystafelloedd iechyd a ffitrwydd, ardal hyfforddi swyddogaethol ar flaen y gad, trac redeg 60 milltir, rhaglen hyfforddi bersonol am ddim, partion i blant am bris gostyngedig a sesiynau hyfforddi personol, yn ogystal â disgownt o ran triniaethau gyda'r Therapydd Harddwch a Therapydd Cyfannol ar y safle. Gall staff hefyd fanteisio ar ddisgownt o 10% wrth brynu bwyd yn y bar a'r bwyty Pavilion.

### Meithrinfa Ddydd Lilliput

Mae staff sy'n defnyddio'r Feithrinfa yn derbyn disgownt o 10%.

### Therapiau Cymhwysol a Thrin Gwallt

Mae ystod eang o driniaethau cymhwysol a thrin gwallt ar gael gan ein myfyrwyr sydd o dan oruchwyliaeth barhaol. Mae disgownt o 20% ar gyfer unrhyw driniaethau ac rydym yn defnyddio cynhyrchion o safon uchel, gan gynnwys Dermalogica, Revlon a Wella yn ein salonau.

### Caffi a Bwytai

Mae detholiad eang o fwydydd a diodydd ar gael yn ein caffeterias yn ein campysau ac yn ein Bwyty Hyfforddi Blasus yng Nghampws Castell-nedd.

### Adnoddau Dysgu

Gall staff ddefnyddio ein llyfrgelloedd.

### Planhigfa

Mae myfyrwyr mewn Garddwriaeth yng Nghampws Castell-nedd yn tyfu planhigion sydd ar werth am brisiau isel.

### Parcio

Gall staff a myfyrwyr barcio am ddim yn ein campysau.

### Gweithio Hyblyg

Gall staff sy'n cwrdd â'r meini prawf perthnasol ymgeisio am gynllun sabothol, gweithio hyblyg neu gyfle i rannu swydd.

### Gwasanaethau Cymorth i Staff

Mae gwasanaeth iechyd galwedigaethol ar gael yn ogystal â Llinell Gymorth Staff sef gwasanaeth cyfrinachol 24 awr sy'n cynnig cyngor am Reoli Bywyd a Chefnogaeth Bersonol. Mae Swyddog Iechyd a Llesiant penodedig ar gael i staff.

### Talebau Gofal Plant

Mae'r Coleg yn cynnig cynllun talebau gofal plant fel rhan o'i becyn o fuddion i staff. Mae cost y daleb gofal plant yn cael ei chymryd yn uniongyrchol o'ch cyflog crynswth fel nad oes rhaid i chi dalu treth a chyfraniadau yswiriant gwladol ar gyfanswm eich taleb. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

[www.computersharevoucherservices.com](http://www.computersharevoucherservices.com)

### Gofal Llygaid

Mae'r Coleg yn cynnig talebau gofal llygaid drwy Specsavers. Mae pob taleb yn cynnig archwiliad iechyd llygaid gyda Specsavers (unrhyw gangen) a chyfraniad hyd at £65 os bydd angen i chi wisgo sbectols wrth ddefnyddio cyfrifiaduron yn benodol.